

Croesawyd y pianydd Tsieineaidd-Americanaidd **George Xiaoyuan Fu** gan y *Boston Music Intelligencer* â'r geiriau "heroic piano soloist" a chanddo "stunning virtuosity", a pherfformiodd yn unawdydd gyda cherddorfeydd megis y National Symphony Orchestra, Baltimore Symphony Orchestra, North Carolina Symphony, Tanglewood Music Center Orchestra a'r Curtis Symphony Orchestra. Perfformiodd drwy hyd a lled cyfandiroedd America ac Ewrop mewn oedfannau megis y Kennedy Center, Wigmore Hall, Carnegie Hall, a Seiji Ozawa Hall yn Tanglewood. Bu ei berfformiadau byw a'i gyfweiliadau'n amlwg eu lle ar sawl darllediad teledu a radio cyhoeddus ledled yr Unol Daleithiau, er enghraifft *On Stage At Curtis*, *Articulate with Jim Cotter*, *Performance Today*, a *Philadelphia's Music Makers* ar WRTI Radio yn Philadelphia. Ar ôl taith cerddoriaeth siambr yn America Ladin yn haf 2019 mewn triawd gyda'r ffidler Roberto Diaz, y tymor yma gwelir George mewn perfformiadau début solo o bwys yn Llundain (Steinway Hall), Washington D.C. (Phillips Collection), a Chicago (Chicago Cultural Center). Mae 2020 hefyd yn nodi ail flwyddyn Gŵyl Cerddoriaeth Siambr TaoArts, cyfres flynyddol yn ardal brifddinesig Washington D.C. a sylfaenodd George ac y mae'n gyd-Gyfarwyddwr Artistig arni. A chanddo ddiddordeb mewn gwaith rhyngddisgyblaethol, perfformiodd George mewn sawl cilfach yn ei faes: o fod yn fynych yn gerddor siambr gweithgar gyda phartneriaid deuwad ac ensembles drwy'r byd yn grwn; hyd at gydweithredu mewn cynyrchiadau bale a drama drwy'r byd yn grwn; hyd at sgrifennu a thraddodi darlithoedd a datganiadau ar y cyd ar berfformio cerddorol. Mae George yn berfformiwr brwd cerddoriaeth gyfoes a chydweithredodd â Krzysztof Penderecki, Harrison Birtwistle, Unsuk Chin, Matthew Aucoin, a Freya Waley-Cohen, ar ben bod yn gyfansoddwr gweithgar. Ar ôl perfformiad eang ei glod yn unawdydd piano yn *Turangalîla-Symphonie* Messiaen ochr yn ochr â Stefan Asbury yng Ngŵyl Gerdd Tanglewood, detholwyd George yn Gerddor New Fromm a bu wedyn yn unawdydd piano yn *Oiseaux Exotiques* Messiaen gyda Vinay Parameswaran, yn ogystal ag astudio gweithiau piano solo Messiaen gyda Pierre-Laurent Aimard. Brodor o Frederick, Maryland ydi George ac mae ganddo raddau o Goleg Harvard, y Curtis Institute of Music, a'r Royal Academy of Music, wedi astudio gyda Meng-Chieh Liu, Jonathan Biss, Christopher Elton a Joanna MacGregor. Ar hyd o bryd mae'n gymrawd y piano yn y Royal Academy of Music.